Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dafydd Llwyd
# Park Lane
# Y Drenewydd
# Powys
# SY16 1EG

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2010

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol Gynradd ddynodedig Gymraeg yw Ysgol Dafydd Llwyd a leolir yn y Drenewydd.  Fe'i hagorwyd yn 2001 i wasanaethu'r Drenewydd a'r ardaloedd cyfagos. Yr awdurdod lleol yw Powys.

Lleolir yr ysgol mewn pump o adeiladau ar wahân, ar yr un campws a dwy ysgol arall. Mae'r adeiladau yn cynnwys dau gaban dros dro.  Bu cynnydd arwyddocaol yn niferoedd y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ers yr arolygiad diwethaf, ac fe ragwelir bydd y cynnydd hwn yn parhau.  Ar hyn o bryd mae 149 disgybl o dair i 11 oed yn yr ysgol, gan gynnwys disgyblion oed meithrinamser llawn.  Mae 38% ohonynt â'r Gymraeg yn brif iaith y cartref, ac ychydig o ran rhif yw'r disgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig.

Disgrifir yr ardal fel un sydd heb fod yn freintiedig nac yn ddifreintiedig.  Mae gan 14.7% o'r disgyblion hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim, sydd yn uwch na chyfartaledd Powys ond yn is na chyfartaledd Cymru.  Mae 18% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae 8 o athrawon llawn amser yn yr ysgol, gan gynnwys y pennaeth, a gafodd ei phenodi yn 2005.  Mae tri o athrawon rhan amser yn gweithio yn yr ysgol i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac i ganiatáu amser cynllunio, paratoi ac asesu i'r athrawon dosbarth.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Dafydd Llwyd yw £3,445 sy'n cymharu gydag uchafswm o £11,182 ac isafswm o £2,891 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Powys.  Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 65ed uchaf o'r ysgolion cynradd ym Mhowys.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae gan Ysgol Dafydd Llwyd lawer o gryfderau a dim meysydd pwysig mae angen eu gwella'n sylweddol. Mae'r cryfderau yn cynnwys:

- safonau cyflawniad da yn y rhan fwyaf o'r pynciau;
- disgyblion sy'n datblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol, dwyieithog sy'n ymwybodol iawn o bwysigrwydd tegwch, cynhwysiant a gofal dros eraill;
- disgyblion sy'n ymagweddu yn bositif iawn tuag at ddysgu, sy'n gwrtais ac yn ymddwyn yn dda iawn; a
- gwybodaeth y disgyblion o'u hetifeddiaeth Gymreig.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd bod:

- prosesau hunan-arfarnu'r ysgol yn effeithiol ar y cyfan, ac o ganlyniad maent yn adnabod yn gywir bron pob un o'i chryfderau a'i gwendidau;
- mae cynlluniau gwella yn arwain at weithredu effeithiol ac mae safonau yn y meysydd sydd angen sylw yn codi; ac
- arweinyddiaeth yr ysgol yn datblygu yn dda ar bob lefel, ac erbyn hyn yn rhoi sylw da i godi safonau.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol i:

A1 barhau i godi safonau mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2;

A2 sicrhau bod ansawdd yr addysgu o leiaf yn dda ar draws yr ysgol; a

A3 mireinio'r prosesau hunan-arfarnu er mwyn adnabod yn well wendidau yn yr addysgu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Dafydd Llwyd yn addasu'r cynllun gweithredu presenol er mwyn ymateb yn llawn i'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae safonau cyflawniad yn gyffredinol dda ar draws yr ysgol bron ym mhob maes.

Mae medrau cyfathrebu mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n effeithiol yn y Gymraeg ar draws yr ysgol a hefyd yn y Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Mae medrau llythrennedd y mwyafrif yn dda mewn darllen ac ysgrifennu, gyda llawer yn medru ysgrifennu'n helaeth yn y ddwy iaith. O ganlyniad, mae gan bob un o'r disgyblion fynediad teilwng i'r cwricwlwm ehangach fel y bo'n briodol i'w hoed a'u gallu.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1 gall y mwyafrif helaeth ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn hyderus o gofio eu cefndir ieithyddol wrth ddechrau yn yr ysgol. Mae safonau llafar y mwyafrif yn dda iawn.

Mae mwyafrif o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Llwyddant i gyflawni safonau sydd yn briodol i'w hoed a'u gallu ar wahân i leiafrif arwyddocaol o blant hŷn yn eu gwaith mathemateg. Mae gallu'r disgyblion i gyd-weithio mewn parau ac mewn grwpiau yn annibynnol yn nodwedd dda iawn ar draws yr ysgol.

Darlun cymysg sydd i ddata cyrhaeddiad yr ysgol. O archwilio'r cyd-destun, gwelir bod y niferoedd ym mhob blwyddyn ysgol yn gymharol fach. Hefyd, mae anghenion addysgol ychwanegol (AAY) gan ganran arwyddocaol o blant mewn rhai blynyddoedd.

Mae perfformiad cyffredinol yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 yn anwastad yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Mae'r canran o ddisgyblion a lwyddodd i gyrraedd y nod disgwyliedig o lefel 2 yn y dangosydd pynciau craidd (y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) yn 2010 yn uwch na chyfartaledd Powys a Chymru. Fodd bynnag, nid yw cystal â chyfartaledd gweddill yr ysgolion yn nheulu'r ysgol. Roedd perfformiad yr ysgol yn y pynciau craidd unigol yn gyson gyda 83% yn cyrraedd y lefel disgwyliedig. Mae'r canrannau sydd yn cyrraedd lefelau uwch na'r disgwyl (lefel 3) yn is na chyfartaleddau Powys a Chymru yn y tri phwnc.

Ar gyfartaledd, mae perfformiad cyffredinol yr ysgol yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos tuedd tuag i lawr yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Mae canlyniadau Cymraeg a Saesneg yn uwch na chyfartaleddau Powys a Chymru ac yn gosod yr ysgol yn agos at gyfartaledd ysgolion y teulu. Fodd bynnag, nid yw canlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth cystal – maent yn is na chyfartaleddau Powys a Chymru ac yn y chwartel isaf o'u gymharu ag ysgolion tebyg. Er hyn, nid yw safonau gwyddoniaeth a mathemateg gyfredol y disgyblion yn adlewyrchu'r canlyniadau isel. Ym mron pob dosbarth, mae safonau gwyddoniaeth a mathemateg yn dda.

Mae'r canrannau sydd yn cyrraedd lefelau uwch na'r disgwyl (lefel 5) yn agos at gyfartaleddau Powys a Chymru yn Gymraeg, yn uwch ym mathemateg ac yn is yn Saesneg a gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 1, roedd canlyniadau'r merched yn well na'r bechgyn ym mhob pwnc. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad bechgyn yn well na'r merched yn y Gymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, yng nghyd-destun y niferoedd perthnasol nid ystyrir y gwahaniaethau hyn yn rhai arwyddocaol.

**Lles: Da**

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn o fewn gwersi ac o amgylch yr ysgol ac maent yn cydweithio a chyd-chwarae'n hapus. Mae'r disgyblion hŷn yn ofalgar iawn o'r disgyblion ieuengaf ac yn ddieithriad maent yn gwrtais iawn wrth siarad ag oedolion ac ymwelwyr.

Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at fyw a bwyta'n iach.

Mae'r disgyblion oll yn cael cyfle i roi mewnbwn i'r hyn y maent yn ei ddysgu ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu cyfranogiad. Mae eu gallu i ganolbwyntio ac i ymgymryd â thasgau yn dda. Mae gallu'r disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith yn dda iawn.

Mae'r gyfradd presenoldeb, sef tua 94.7%, yn weddol gyson dros y tair blynedd diwethaf ac yn cymharu yn ffafriol gyda chyfartaleddau Powys a Chymru.

Drwy ethol cyngor yr ysgol, cyngor eco a chynnal etholiad ffug adeg yr etholiad cyffredinol, deuant yn gyfarwydd ag egwyddorion democratiaeth. Gwna aelodau'r cynghorau eu gwaith yn gydwybodol ac ymfalchïant yn ymateb cadarnhaol yr ysgol i nifer o'u hawgrymiadau. Ceir cyfarfodydd cyson sy'n caniatáu i ddisgyblion o bob ystod gallu i fynegi barn a chyfrannu at benderfyniadau a newidiadau yn yr ysgol.

Mae gwybodaeth ac ymrwymiad y disgyblion tuag at gefnogi a hyrwyddo masnach deg yn nodwedd ragorol. Trwy'r grwpiau hyn, mae disgyblion yn datblygu eu cyfraniad tuag at nifer o agweddau o fywyd ysgol, fel cynaliadwyedd a bwyta'n iach. Maent yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at waith elusennol yr ysgol.

Mae gan mwyafrif y disgyblion wybodaeth gynyddol o arferion a disgwyliadau byd gwaith. Cwblhaodd y disgyblion prosiect o ansawdd da iawn ar greu menter yn gwerthu lemonêd. O ganlyniad, maent yn meithrin hunan gymhelliad ac annibyniaeth a fydd yn werthfawr pan dyfant yn oedolion.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu eang a gwerthfawr yn cael eu cynllunio'n ofalus i ennyn diddordeb y disgyblion. Ceir arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen sy'n gosod sail gadarn ar

gyfer datblygu dysgwyr annibynnol. Defnyddir amrywiaeth o strategaethau addysgu effeithiol er mwyn cwrdd â gofynion y dysgwyr a'r gymuned, er enghraifft y dull ymholi a'r gwaith parthed asesu ar gyfer dysgu a sgiliau meddwl. Caiff gweithgareddau dysgu eu cyfoethogi ymhellach trwy ystod eang o weithgareddau amrywiol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol.

Mae amrywiaeth dda o strategaethau dysgu yn cael eu defnyddio er mwyn cynorthwyo'r plant i ddysgu'n effeithiol. Mae pwyslais addas ar hybu medrau mewn gwersi ac wrth i'r gweithgareddau hyn ddatblygu rhoddir cyfleoedd ym mron pob un o'r dosbarthiadau i'r disgyblion gydnabod pa sgiliau allweddol sydd yn cael eu defnyddio. Er hyn, ar adegau nid yw'r gwaith yn ddigon heriol ac ymestynnol ar gyfer datblygu medrau rhifedd y disgyblion hynaf.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo masnach deg a'r pwyslais a roddir ar ddatblygu gwybodaeth y disgyblion o'u hetifeddiaeth Gymreig yn nodweddion ardderchog. Datblygir dealltwriaeth y disgyblion o'r byd ehangach a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd cyffredinol yr addysgu yn dda. Yn y gwersi mwyaf effeithiol gwelir cynllunio bwriadus gydag amcanion clir wedi eu nodi ar gyfer y sesiynau. Defnyddir ystod o ddulliau ac adnoddau addysgu sydd yn ennyn diddordeb bron pob un o'r disgyblion ac yn eu hysgogi a'u herio i gyflawni'n dda, fodd bynnag nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r staff yn modelu iaith dda eu hunain ac mae perthynas waith da yn bodoli ymysg y plant a rhwng y plant a'r oedolion. Rheolir ymddygiad disgyblion yn effeithiol iawn ac mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda a chyfoes.

Mae ansawdd yr asesu, adrodd a chofnodi cyflawniad disgyblion yn dda. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dda iawn ac wedi eu hintigreiddio i bron pob un o'r gwersi gan ddatblygu'n rhan naturiol o waith yr ysgol. Mae gan y disgyblion eu targedau personol i weithio tuag atynt ac mae'r adborth gan yr athrawon yn galluogi disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Darperir cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gallu i asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion. Mae rhieni'n fodlon â'r modd y mae'r ysgol yn rhoi arweiniad a gwybodaeth glir a chryno iddynt a chaiff cyfarfodydd rheolaidd eu cynnal yn yr ysgol ar adegau priodol yn ystod y flwyddyn er mwyn rhoi gwybod i rieni am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol amrediad cynhwysfawr o bolisïau a threfniadau i hyrwyddo iechyd a lles. Fe'u cefnogir yn gadarn gan arferion da o ran cynnal asesiadau risg, archwilio offer a diweddaru gwybodaeth a chymwysterau.

Mae pwyslais amlwg ar ymarfer corff, hylendid, diogelwch a gwneud dewisiadau iach. Cyflwynir addysg ryw ac addysg iechyd gyda chymorth effeithiol arbenigwyr o asiantaethau allanol.

Tystia disgyblion a rhieni nad oes problem bwlio. Mae'r disgyblion yn troi'n hyderus at yr oedolion o'u cwmpas am gymorth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn dda iawn. Rhoddir cryn bwyslais ar ddarparu cyfleodd ardderchog i hyrwyddo datblygiad diwylliannol y disgyblion. Cynllunir cyfleoedd o fewn y cwricwlwm ac yn all-gyrsiol i gyflwyno profiadu cyfoethog sy'n adlewyrchu agweddau ar ddiwylliant ac hetifeddiaeth Cymru.

Rhoddir gofal da gan staff yr ysgol i anghenion unigol y disgybl. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol gan sicrhau bod y plant yn derbyn cymorth proffesiynol ar faterion addysgol a materion eraill oddi mewn i'r ysgol a chan wasanaethau arbenigol allanol.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ac mae ganddi weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r staff yn darparu'n effeithiol ar gyfer anghenion unigol y plant sydd ag anghenion ychwanegol. Mae'r cynlluniau yn addas ac yn cael eu gweithredu ac fe rhoir pwyslais ar adnabod a darparu cefnogaeth yn gynnar i ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth hyblyg ar gyfer adnabod plant mwy abl a thalentog yn bodloni anghenion y dysgwyr.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cyfeillgar, gweithgar a chynhwysol, sydd yn seiliedig ar gefnogaeth a pherthynas gadarnhaol, yn un o gryfderau'r ysgol. Ymdrinnir â materion cyfleoedd cyfartal, a materion parthed amrywiaeth a chydraddoldeb ym mywyd yr ysgol yn briodol, ac mae'r trefniadau cadarn sydd yn bodoli yn sicrhau ymddygiad da iawn ar draws yr ysgol.

Llwydda'r ysgol i greu ymdeimlad o undod a phwrpas er gwaethaf anawsterau a grëir gan ddiffyg gofod yn sgil twf cyson yn nifer y disgyblion. Nid oes gan yr ysgol neuadd o faint addas, nac unman i storio adnoddau arbenigol. Nid oes ffreutur bwrpasol, felly mae'n rhaid cludo bwyd ar drolïau o gegin ysgol gyfagos. Mae'r dosbarthiadau'n groesawus gydag arddangosfeydd lliwgar yn amlygu tasgau cyfredol ac sy'n rhoi bri ar waith disgyblion. Gwneir defnydd da o dir yr ysgol i greu ardaloedd dysgu symbylus yn yr awyr agored. Caiff adeilad a thiroedd yr ysgol eu cynnal a chadw'n briodol.

Mae adnoddau digonol ar gyfer cyflwyno holl bynciau'r cwricwlwm. Cyflwynir agweddau ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac addysg gorfforol trwy drefniant effeithiol âg un ysgol gyfagos. Yno hefyd y cynhelir rhai gwasanaethau a chyngherddau ysgol gyfan.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol iawn. Mae ganddi weledigaeth glir a blaenoriaethau priodol er mwyn symud yr ysgol ymlaen. Llwyddodd i ddatblygu ysbryd gynhwysol lle mae'r holl staff yn cyd-weithio'n effeithiol fel tîm. Mae ei rheolaeth o'r ysgol o ddydd i ddydd yn effeithiol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae aelodau o'r corff yn cymryd cyfrifoldeb am feysydd yn y cwricwlwm ac yn trafod agweddau ar y gwaith gyda'r cydlynwyr. Maent yn datblygu eu rôl fel ffrind beirniadol sy'n herio'r ysgol yn effeithiol, er enghraifft wrth drafod data cyrhaeddiad.

Mae'r ysgol yn llwyddiannus iawn am fodloni blaenoriaethau Cenedlaethol, yn arbennig y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008. Mae'r ysgol wedi gweithredu fel ysgol beilot ar gyfer y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac mae'n hyrwyddo blaengareddau fel Byw yn Iach ac elfennau pwysig megis cynaladwyedd a Dinasyddiaeth Fyd Eang yn llwyddiannus.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae trefniadau hunanarfarnu wedi cael eu strwythuro yn effeithiol er mwyn sicrhau mewnbwn gan staff, plant, llywodraethwyr a rhieni. Mae'r pennaeth yn ystyried holl ddata meincnodi'r ysgol yn fanwl ac yn dehongli data sy'n gysylltiedig â chyflawniad carfannau penodol o ddisgyblion wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Ar y cyfan mae arweinyddion pwnc yn gweithredu eu rôl yn effeithiol; casglant dystiolaeth drwy arsylwi'n uniongyrchol ar wersi, drwy gynnal trafodaethau gydag aelodau staff ac maent hefyd yn adolygu llyfrau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hunan arfarnu wedi sicrhau cysondeb digonol yng nghyd destun addysgu mathemateg.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu ar y cyfan yn weddol ddadansoddol ac mae'r elfennau sydd angen datblygiad pellach wedi cael eu nodi yn y Cynllun Datblygu Ysgol. Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol yn ddogfen weithredol sy'n adnabod blaenoriaethau priodol a strategaethau effeithiol ar gyfer sicrhau gwelliant. Er enghraifft, mae'r pwyslais diweddar ar wella safonau ac ansawdd yng ngwyddoniaeth a mathemateg yn cael effaith amlwg ar godi safonau ym mron pob un dosbarth.

Mae diwylliant da yn datblygu yn yr ysgol o ran rhannu syniadau ac arfer dda. Yn ogystal mae'r staff sy'n gyfrifol am y Cyfnod Sylfaenyn rhwydweithio gydag ysgolion eraill fel rhan o'r Fforwm Cyfnod Sylfaen ac wedi ymweld ag ysgolion i arsylwi arfer dda. Crëwyd cysylltiadau dros amser gyda chlwstwr o ysgolion Cymraeg yn yr awdurdod lleol sy'n cynnwys trefniadau trwyadl i gymedroli gwaith plant Blwyddyn 6 yn y pynciau craidd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn cyd-weithio’n effeithiol gyda nifer o bartneriaid i ymestyn profiadau dysgu disgyblion ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae ymwelwyr, gan gynnwys rhieni, yn dod i rannu eu harbenigedd mewn sawl maes cwricwlwm er enghraifft, cyflwyniadau am fyd natur a thrafod atgofion o’r Ail Ryfel Y Byd.

Mae’r cysylltiadau da ac agos gyda’r Cylch Meithrin yn gymorth da i’r plant bach i ymgartrefu’r wrth iddynt ddechrau’r ysgol. Ceir cysylltiadau da hefyd gyda’r ysgol uwchradd a chynhelir cyfarfodydd ar y cyd i drafod cyflawniad disgyblion tua diwedd cyfnod allweddol 2 yn y pynciau craidd. Mae gan yr ysgol drefniadau pontio effeithiol sy’n hyrwyddo lles disgyblion wrth drosglwyddo o’r cynradd i’r uwchradd.

Mae’r bartneriaeth rhwng yr ysgol a rhieni yn dda iawn ac mae rhieni’r ysgol yn gefnogol i’r holl weithgareddau a ddarperir. Maent yn datgan eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant ac mae bron pob rhiant yn hapus iawn gyda phob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae cydweithio effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol, y llywodraethwyr a’r rhieni.

Mae perthynas gyda’r awdurdod lleol yn fuddiol iawn ac yn dylanwadu yn effeithiol ar hyfforddiant staff mewn nifer o feysydd, gan gynnwys darparu'r cwricwlwm, dulliau addysgu ac amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau’n dda. Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a chymorthyddion sy’n gymwys ac effeithiol. Cydweithiant yn dda a gwnânt gyfraniadau pwysig i waith a bywyd yr ysgol.

Mae’r ysgol yn lân ac yn daclus ac er y diffygion sylweddol parthed yr adeilad, gwneir defnydd ardderchog o’r safle. Mae’r Corff Llywodraethol yn cadw golwg barcud ar y gyllideb ac fe sicrheir bod y gwario yn ymateb i ofynion blaenoriaethau’r Cynllun Datblygu Ysgol.

Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o’u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae rheolaeth o’r amser hwn yn dda. Mae cyfrifoldebau a disgwyliadau clir gan yr athrawon sydd â chyfrifoldebau addysg a dysgu (CAD). Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sy’n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

O ystyried cynnydd y rhan fwyaf o’r dysgwyr, y safon uchel iawn o ddatblygiad personol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol â’r profiadau addysgol gwerthfawr, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni/gwarcheidwad

Dychwelwyd 24 o holiaduron y rhieni ac mae pob un ohonynt yn fodlon neu’n fodlon iawn â’r ysgol yn gyffredinol. Dywedant fod eu plant yn hoffi’r ysgol ac yn teimlo’n ddiogel ynddi. Mae bron pob un hefyd yn credu fod ymddygiad y disgyblion yn dda, fod y disgyblion yn cael eu parchu, eu trin yn deg a’u bod yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae pob rhiant yn teimlo fod yr addysgu yn dda a bron pob un yn teimlo fod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae ychydig o’r rhieni o’r farn nad yw’r gwaith cartref sy’n cael ei osod yn adeiladu’n dda ar yr hyn y mae’r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae bron pob rhiant o’r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda neu yn dda iawn.

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd bron bob un o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yr holiadur a siaradodd y tîm â’r disgyblion yn ystod yr arolygiad. Mae pob un yn dweud eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn ymdrin â bwlio’n dda. Mae bron pob un yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni neu os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae pob un o’r dysgwyr o’r farn bod yr athrawon a’r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac mae bron pob un yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae ychydig yn teimlo nad yw pob un o’r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio ac mae nifer tebyg yn teimlo fod ymddygiad plant yn amharu ar eu gallu i wneud eu gwaith.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Clive Phillips | Arolygydd Cofnodol |
| Alun Morgan | Arolygydd Tîm |
| John Roberts | Arolygydd Lleyg |
| Rhys Hughes | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs S Davies (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |